BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

Adnodd Cyfarwyddyd Ymarfer Rhanbarthol
ar gyfer Penderfyniadau yn ymwneud â Diogelu Oedolion

CYNNWYS: Tudalen

Cyflwyniad	3
Deddfwriaeth a Dyletswydd Statudol yr Awdurdod Lleol/Partneriaid	4
Dymuniadau, Teimladau a Chydsyniad	6
Galluedd Meddyliol a Budd Gorau	6
Eiriolaeth ym maes Diogelu	8
Barn Broffesiynol	9
Gwneud Atgyfeiriad Diogelu	10
Diffiniadau	10
Siart llif y Broses Ymholiad Diogelu	13
Y Penderfyniad	14
Pryderon Proffesiynol	15
Cam-drin Sefydliadol	15
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol	16
Adolygiadau Ymarfer Oedolion	17
Fforymau Amlasianaeth Proffesiynol	18
Rhyngwyneb gyda Diogelu Plant	19
Canllawiau Trothwyo Diogelu	20-36

Atodiadau: Tudalen

Atodiad 1 – Ffurflen Adrodd am Ddiogelu Oedolion	37-44
Deg o Awgrymiadau Gwych ar gyfer Llunio Adroddiad Diogelu Oedolion	45-46

Geirfa:

AYO	-	Adolygiad Ymarfer Oedolion
DNACPR	-	Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol
MAPF	-	Fforwm Amlasiantaeth Proffesiynol
MARAC	-	Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg
VAWDASV	-	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cyflwyniad

Cydnabyddir yn gyffredinol bod ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth yn gweithio'n ddiflino i roi cymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, a hynny mewn sefyllfaoedd heriol ar brydiau. Yn anffodus, wrth gyflawni'r gwaith hwn bydd pryderon yn dod i'r amlwg ar adegau yn ymwneud â diogelwch yr oedolion maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau yn gwybod beth i'w wneud pan fyddan nhw'n adnabod neu'n amau bod oedolyn yn agored i gamdriniaeth neu esgeulustod, a'u bod nhw'n cyfrannu mewn ffordd ragweithiol at atal achosion o niwed a cham-driniaeth rhag digwydd neu waethygu. Nid yw hi bob amser yn glir pryd dylid atgyfeirio pryder yn ymwneud â diogelu at yr Awdurdod Lleol ac nid yw'n amlwg ychwaith deall sut gallai, neu sut dylai, pryderon gael eu rheoli.

Er mwyn darparu cyfarwyddyd rhanbarthol a sicrhau cysondeb, datblygwyd y 'ddogfen canllawiau ymarfer diogelu oedolion' gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar y cyd gydag asiantaethau partner ac mewn ymgynghoriad gyda staff rheng-flaen.

Amcan y ddogfen arweiniol yw sicrhau bod ein ymateb rhanbarthol, cyffredin i gadw pobl yn ddiogel yn briodol ac yn gymesur i'r achos o gamdriniaeth /esgeulustod a nodwyd neu'r perygl ohono. Golyga hyn nad gweithdrefnau diogelu ffurfiol fydd y ffordd orau neu'r unig ffordd o fynd i'r afael â materion sy'n codi.

Mae'r ddogfen arweiniol yn rhoi enghreifftiau o'r math o bryderon a allai olygu bod angen anfon adroddiad/atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol neu beidio, oherwydd nad yw'r pryderon yn ymwneud â cham-drin neu esguluster, y pryderon hynny y mae angen eu hatgyfeirio ond sy'n debygol o gael eu rheoli mewn ffordd fwy priodol a'r rhai a fydd heb os yn arwain at weithdrefnau diogelu ffurfiol. Mae rhai pryderon yn ymwneud ag ymarfer gwael neu ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd gwael y mae'n rhaid eu rheoli'n briodol.

Beth yw pryder ynglŷn ag ansawdd a safonau darpariaeth gwasanaeth (ymarfer gwael) a beth yw cam-drin neu esgeulustod?

Mae'r gwahaniaeth rhwng ansawdd gofal neu gymorth (ymarfer gwael) ac esgeulustod yn destun cryn anghytundeb. Os yw rhywun yn gwbl ddibynnol ar gymorth eraill i ddiwallu ei anghenion personol sylfaenol, gall 'ymarfer gwael' parhaus arwain at niwed difrifol neu farwolaeth.

Mae ymarfer gwael yn bryder sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau darpariaeth gwasanaeth. Yr elfennau defnyddiol all fod o gymorth wrth benderfynu a oes achos o ymarfer gwael nad oes angen gweithredu ar ei sail o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru i ddiogelu'r oedolyn, yw canfod a yw'r pryder yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- mae'r digwyddiad yn un 'untro' yn gysylltiedig ag unigolyn ac nid ywwedi arwain at unrhyw niwed
- mae'r digwyddiad wedi dangos yr angen i weithredu mewn ffordd benodol

Mae'n rhaid i ddigwyddiadau sy'n awgrymu bod ymarfer gwael yn effeithio ar fwy nag un oedolyn, neu bod ymarfer gwael yn ailadroddus ac nad yw'n ddigwyddiad "untro", arwain at weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru oherwydd gall y digwyddiadau hyn fod yn ddangosyddion da o gam-drin mwy eang, sefydliadol.

Weithiau bydd digwyddiad 'untro' yn awgrymu bod darparwyr iechyd neu ofal wedi gostwng eu safonau.

Mae'r dull cymesur hwn o reoli risg yn sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd gan y bobl gywir ar yr adeg cywir. Mae hefyd yn sicrhau bod sylw cywir yn cael ei roi i ddymuniadau a theimladau yr unigolion sy'n gysylltiedig a ddylai gael eu grymuso i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail gwybodaeth.

Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnig sail ddeddfwriaethol gadarn, wedi'i chefnogi gan egwyddorion, i sicrhau bod yr oedolyn yn dal i fod mewn rheolaeth o'i benderfyniadau ei hun, neu bod y penderfyniadau lleiaf cyfyngol posibl sydd er lles yr unigolyn hwnnw yn cael eu gwneud pan nad yw ef/hi yn gallu gwneud penderfyniadau drosto ei hun.

Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw:

- Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolyn a'i anghenion, wrth galon ei ofal, a rhoi llais a rheolaeth i'r unigolyn i gael y canlyniadau sy'n ei helpu i sicrhau llesiant.

- "Mae pobl yn gofyn i mi beth mae arnaf ei eisiau fel canlyniadau'r broses ddiogelu ac mae'r rhain yn llywio'r hyn sy'n digwydd yn uniongyrchol."

- Atal ac ymyrryd yn gynnar – gwella gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau achosion o angen critigol.

- "Rydw i'n derbyn gwybodaeth glir a syml am yr hyn mae cam-drin yn ei olygu, sut i adnabod arwyddion a beth gallaf ei wneud i ofyn am gymorth."

- Lles – rhoi cymorth i bobl ofalu am eu lles eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

- "Rydw i'n teimlo'n hapus o ran y cymorth rydw i'n ei dderbyn ac rydw i wedi cael fy ngrymuso gan fy mod yn rhan o'r broses honno."

- Cynhyrchu ar y cyd – annog unigolion i gymryd rhan mwy amlwg wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

- "Rydw i'n cael cymorth i gymryd rhan yn y broses benderfyniadau i'r graddau rwyf eisiau gwneud hynny ac rwyf yn gallu gwneud hynny."

Cyfrifoldebau i roi gwybod

Mae, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi dyletswydd ar 'bartneriaid perthnasol' dan adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys babanod heb eu geni, y mae ganddynt reswm rhesymol i amau eu bod mewn perygl o niwed.

Dyletswydd i adrodd am bryderon (gan gynnwys cam-drin ac esgeulustod) ynghylch ymarferydd

Mae'n bwysig nad yw ymarferwyr yn anwybyddu neu'n gwrthod amheuaeth am gyfranogwyr neu gydweithiwr arall a all fod yn cam-drin, esgeuluso neu'n achosi niwed i blentyn neu oedolyn mewn perygl.

Mae gan bob ymarferydd gyfrifoldeb i ddiogelu oedolion mewn perygl ac mae hynny'n cynnwys diogelu rhag camdriniaeth gan weithiwr proffesiynol, gofalwr sy'n derbyn tâl neu wirfoddolwr. Felly, mae'r dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hyn. Mae'r dyletswydd hon hefyd yn cynnwys amheuaeth yn unig o gamdriniaeth.

Ceisio cydsyniad cyn rhoi gwybod

Mae'n rhaid i les yr oedolyn mewn perygl fod yn brif ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau pa un ai i gael cydsyniad cyn rhoi gwybod. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr geisio derbyn cydsyniad gan oedolyn ble bo'n bosibl. Y rhesymau dros hyn yw ei fod yn fwy tebyg o:

- arwain at gymryd rhan yn y broses diogelu ac arwain at ganlyniadau effeithiol;
- hybu partneriaeth waith effeithiol gyda'r oedolyn.

Mae'n bwysig cynnwys oedolion yn y broses mor fuan â phosibl i sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu cymryd i ystyriaeth ble bo'n bosibl ac i osgoi iddynt fod yn 'fater o bryder'.

Gwneud adroddiad heb gydsyniad

Yr oedolyn mewn perygl weithiau yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd ymarferwyr angen siarad gydag oedolyn heb yn wybod i ofalwr. Ble gwneir penderfyniad i beidio ceisio cydsyniad, mae'n rhaid cofnodi amgylchiadau perthnasol dros y penderfyniad hwn a gall gynnwys:

- y posibilrwydd y byddai'r oedolyn mewn risg pellach;

- y posibilrwydd y byddai oedolyn yn cael ei fygwth neu fel arall yn cael ei orfodi i

gadw'n dawel;

- tebygolrwydd cryf y byddai tystiolaeth gref yn cael ei dinistrio/cholli;
- os bydd gofalwr neu aelod o'r teulu yn cael ei adnabod fel y sawl sy'n cam-drin;
- Nad oedd yr oedolyn dan sylw yn dymuno i'r gofalwr gyfrannu yn ystod y cam hwnnw;
- Mae er budd y cyhoedd;

Gallu oedolion mewn perygl i roi cydsyniad

Mae cydsyniad yr oedolyn mewn perygl yn ffactor sylweddol wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i bryder neu honiad. Mae'n bosibl y bydd oedolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth yn gallu diogelu eu hunain rhag camdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio gan eraill ac nid ydynt yn anochel yn methu diogelu eu hunain oherwydd eu hoedran, llesgedd neu anabledd.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall gallu'r oedolyn i ddiogelu eu hunain gael ei effeithio gan eu hanghenion am ofal a chefnogaeth. Gall yr anghenion hyn effeithio ar pa mor bell maent yn gallu gwneud ac ymarfer dewisiadau hysbys heb bwysau na gorfodaeth.

Darparu Gwybodaeth

Dylai'r oedolyn dderbyn gwybodaeth glir a theimlo ei fod wedi cael gwybod am y cymorth sydd ar gael, y rheswm dros godi'r pryder ac, os bydd camau yn cael eu cymryd yn erbyn ei ewyllys (h.y. heb gydsyniad), rhaid nodi'r rheswm dros wneud hyn. Nid yw'n hyn yn atal rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid perthnasol, fodd bynnag, mae'n ymarfer da i roi gwybod i'r oedolyn y bydd hyn yn digwydd oni bai y byddai gwneud hynny yn cynyddu'r risg o niwed. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu penodol yr unigolyn wrth ddarparu gwybodaeth a thrwy gydol unrhyw gamau ymyrraeth.

Galluedd Meddyliol / Asesu Galluedd

Lle bydd ymchwiliad diogelu yn nodi materion yn ymwneud â galledd, rhaid cynnal asesiad galluedd gan unigolyn priodol a chymwys. Yng nghyd-destun diogelu, gallai'r galluedd ymwneud â galluedd yr oedolyn i wneud penderfyniadau penodol ynglŷn â'i sefyllfa, er enghraifft, neu i gydweithio gyda'r Awdurdod Lleol i gynnal yr ymchwiliad diogelu. Rhaid rhagdybio bod gan unigolyn y galluedd oni bai y dangosir bod ganddo ddiffyg galluedd. Yn gyntaf, rhaid rhoi'r holl gymorth ymarferol a phriodol i'r unigolyn i'w helpu i wneud y penderfyniad drosto ei hun. Dylid penodi eiriolwr dim ond os yw'r holl gymorth ymarferol a phriodol i helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad wedi methu. Nodir bod galluedd bob amser yn amodol i newid ac yn ymwneud â phenderfyniadau penodol.

Budd Gorau

Bydd popeth sy'n cael ei wneud ar gyfer neu ar ran unigolyn â diffyg galluedd yn cael ei wneud er budd gorau'r unigolyn hwnnw. Gall unigolyn gyfleu ei ddymuniadau a'i deimladau ar ffurf datganiad ysgrifenedig os yw'n dymuno, ac mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ei ystyried. Hefyd, bydd yn rhaid ymgynghori gyda gofalwyr ac aelodau o'r teulu. Hefyd, dylid rhoi sylw dyledus bob amser i 5 Egwyddor allweddol y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 – 5 egwyddor allweddol

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid rhagdybio fod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni bai y profir i'r gwrthwyneb. Golyga hyn na allwch ragdybio nad yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad drosto ei hun oherwydd fod ganddo gyflwr meddygol penodol neu anabledd.

2. Rhaid rhoi'r holl gymorth ymarferol posibl i unigolyn cyn y gall gael ei drin fel rhywun nad yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun. Golyga hyn y dylech wneud pob ymdrech i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Os sefydlir bod diffyg galluedd, mae'n bwysig o hyd eich bod yn cynnwys yr unigolyn i'r graddau y bod hynny'n bosibl yn y broses o wneud penderfyniadau.

3. Mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau y gall pobl eraill eu hystyried yn annoeth neu'n ecsentrig. Ni allwch drin rhywun fel petai ganddo ddiffyg galluedd am y rheswm hwn. Mae gan bawb ei werthoedd, ei gredoau a'i hoff ddewisiadau ei hun nad ydynt o bosibl yr un fath â rhai pobl eraill.

4. Rhaid i bopeth sy'n cael ei wneud ar ran unigolyn heb alluedd meddyliol gael ei wneud mewn ffordd sydd o fudd iddo.

5. Cyn gwneud penderfyniad neu weithredu ar ran unigolyn heb alluedd meddyliol rhaid ystyried a yw'n bosibl dod i'r un canlyniad mewn ffordd a fydd yn ymyrryd llai â hawliau'r unigolyn a'i ryddid i weithredu, neu rhaid ystyried a oes angen dod i benderfyniad neu weithredu o gwbl. Dylai unrhyw ymyrraeth gael ei phwyso a'i mesur yn ôl amgylchiadau penodol yr achos.

Eiriolaeth ym maes Diogelu

Dylai pobl fod yn bartneriaid gweithgar yn unrhyw ymchwiliad diogelu. Ni waeth pa mor gymhleth yw anghenion unigolyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl, eu helpu i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, rhoi cymorth iddynt i bwyso a mesur dewisiadau, ac i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ac unigolyn sicrhau bod dyfarniadau ynghylch yr anghenion ar gyfer eiriolaeth yn greiddiol i'r broses ddiogelu.

Yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y ffordd orau o gynnwys yr unigolyn yn yr ymchwiliad diogelu, gan sicrhau bod hynny'n briodol ac yn gymesur i anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Lleol bod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth ac mae'n ystyried bod yr unigolyn yn cael anhawster sylweddol i ymgysylltu â'r broses ddiogelu, yna mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'n bosibl i rywun priodol sy'n gallu rhoi cymorth i'r unigolyn gymryd rhan yn y broses.

Unigolyn priodol yw rhywun sy'n gallu hwyluso ymgysylltiad yr unigolyn a golyga hyn fod yn rhaid iddo gael dealltwriaeth ddigonol o brosesau awdurdodau lleol i allu rhoi cymorth i'r unigolyn gymryd rhan i bennu ei ganlyniadau lles a chael y gofal a'r cymorth mae arno eu hangen.

Er enghraifft, gall fod yn Ofalwr (nad yw'n cael ei gyflogi neu ei dalu fel gweithiwr proffesiynol), aelod o'r teulu neu ffrind. Os nad oes unigolyn addas ar gael, yna mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol drefnu gwasanaeth eiriolwr annibynnol a fydd yn cynnig cymorth i'r unigolyn ac yn ei gynrychioli yn ystod yr ymchwiliad diogelu.

Mae diogelu effeithiol yn ceisio hyrwyddo hawliau'r Oedolyn yn ogystal ag amddiffyn ei ddiogelwch corfforol a gweithredu i atal achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod rhag digwydd neu gael eu hailadrodd. Mae'n galluogi'r oedolyn i ddeall risg camdriniaeth a'r camau y gall eu cymryd, neu ofyn i eraill eu cymryd, i leihau'r risg hwnnw.

Os bydd angen i ymchwiliad diogelu ddechrau ar frys, yna gall ddechrau cyn i eiriolwr gael ei benodi ond rhaid penodi eiriolwr cyn gynted â phosibl. Dylai'r holl asiantaethau wybod sut mae dod o hyd i wasanaethau eiriolaeth a gwybod hefyd beth yw eu rôl.

Trefniadau diogelu Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Ystyr Amddifadu o Ryddid yw mynd â rhyddid rhywun oddi wrtho. Ystyrir bod rhywun wedi'i amddifadu o'i ryddid os yw'n cael ei oruchwylio a'i reoli'n barhaus, ac nid yw'n rhydd i adael. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn caniatáu'r defnydd o gyfyngiadau ond rhaid iddynt fod er lles pennaf yr unigolyn. Mae angen trefniadau diogelu ychwanegol os bydd y cyfyngiadau a ddefnyddir yn amddifadu rhywun o'i ryddid. Enw'r rhain yw Trefniadau diogelu Amddifadu o Ryddid (DoLS: *Deprivation of Liberty Safeguards*).

Gellir defnyddio Trefniadau diogelu Amddifadu o Ryddid os yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn lleoliad gofal neu ysbyty yn unig. Mewn lleoliadau eraill, gall y Llys Gwarchod awdurdodi amddifadu o ryddid. Er mwyn amddifadu rhywun o'i ryddid mae'n rhaid dilyn proses glir a chynnal cyfres o asesiadau i awdurdodi'r amddifadu o ryddid. Os yw'n amlwg bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb yr awdurdodiad neu drefniadau diogelu cywir, yna dylid cyflwyno atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol.

Barn Broffesiynol

Mae'r Adnodd Cyfarwyddyd ar gyfer Penderfyniadau Diogelu Oedolion yn arweiniad sy'n cynnig darlun cyfyngedig o'r gamdriniaeth neu esgeulustod sy'n gallu digwydd a'r lefelau posibl o ran difrifoldeb. Nid yw'n ystyried yr holl senarios posibl a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â barn broffesiynol i gefnogi penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn. Mewn rhai amgylchiadau gall y sefyllfa ymddangos yn un risg isel ond byddwch yn gwybod am achosion tebyg sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Bydd hyn yn dylanwadu ar eich penderfyniad i gyfeirio'r achos at yr Awdurdod Lleol a dylai manylion o'r fath gael eu nodi'n amlwg ar Ffurflen Adroddiad/ Atgyfeirio Diogelu Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Bydd angen i'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad ystyried barn yr oedolyn mewn perygl, lle bo'n briodol, a gofyn am gydsyniad i rannu gwybodaeth ar sail amlddisgyblaethol.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth, argymhellir eich bod yn gofyn am gyngor yr Awdurdod Lleol. Dylai staff y Bwrdd Iechyd ofyn am gyngor gan eu tîm diogelu arbenigol / Unigolyn Diogelu Dynodedig. Ar gyfer ymholiadau y tu allan i oriau – gweler ein gwefan am fanylion.

Gwneud penderfyniadau / Cofnodi Camau Gweithredu

Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i BEIDIO â chyfeirio'r achos at yr Awdurdod Lleol, mae'n rhaid i'r asiantaeth unigol gofnodi'r pryder ac unrhyw gamau a gymerwyd. Dylid cofnodi'r pryderon mewn ffordd sy'n golygu bod modd adnabod yn hawdd unrhyw achosion o niwed ailadroddus, lefel isel a'u hatgyfeirio. Nid yw'r ffaith na chafodd achos ei gyfeirio at Awdurdod Lleol yn dileu cyfrifoldeb asiantaeth i gymryd camau perthnasol lle gall wneud hynny, a lle dylai wneud hynny, neu i adrodd am yr achos yn fewnol a hefyd i'r rheoleiddwyr a'r comisiynwyr.

Cyn Llunio Adroddiad (Atgyfeiriad)

Cyn llunio adroddiad/atgyfeiriad, dylai'r sawl sy'n gyfrifol am yr atgyfeiriad ystyried y tair elfen a ddisgrifiwyd yn y diffiniad o oedolyn mewn perygl ac esbonio'n glir pam fod ganddo achos rhesymol i amau bod yr oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Rhaid iddo hefyd gynnwys manylion y camau a gymerwyd eisoes i reoli'r sefyllfa /unrhyw risg cysylltiedig a nodi a yw'r oedolyn wedi cydsynio i'r atgyfeiriad neu beidio. Os cafodd cydsyniad ei ddiystyru rhaid nodi'n glir y rheswm dros wneud hyn ar y ffurflen atgyfeirio.

Wrth ymateb i bryderon diogelu, gall yr Awdurdod Lleol gynnig cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol i reoli'r digwyddiad diogelu, i'r unigolyn sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin, i'r Gofalwyr neu bartïon perthnasol eraill, yn hytrach na gweithredu achos diogelu oedolion. Mae'n bwysig deall felly na fydd ymchwiliad diogelu o reidrwydd yn arwain at yr hyn sy'n cael ei ystyried fel arfer yn "ymateb diogelu", fel ymchwiliad gan yr Heddlu, Corff Rheoleiddio neu Awdurdod Lleol, ond

gallai arwain at gamau eraill i amddiffyn yr oedolyn dan sylw. Os yw mesurau rheoli

wedi cael eu rhoi yn eu lle sy'n cadw'r unigolyn yn ddiogel i bob pwrpas, yna mae lefel y risg yn lleihau. Gall camau o'r fath fod yn ddigonol felly i ganiatáu rheolaeth barhaus o'r sefyllfa ar lefel asiantaethol.

Os yw'r amgylchiadau yn gofyn am ragor o wybodaeth gyffredinol, cyngor a chymorth, cymorth gan weithiwr cymdeithasol neu asesiad o anghenion Gofal a Chymorth, rhaid gwneud cais am hyn drwy'r llwybrau asesu a gofal lleol a nodir isod. Ni ddylech gyfeirio ceisiadau o'r fath at yr adran ddiogelu oni bai fod gennych achos rhesymol i amau bod yr unigolyn yn oedolyn sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgelustod fel y disgrifiwyd uchod.

Llunio Adroddiad Diogelu

Rhaid i'r holl atgyfeiriadau diogelu gael eu cyflwyno ar y Ffurflen Adrodd am Ddiogelu Oedolion – Atodiad 1 rhanbarthol a'u hanfon at yr Awdurdod Lleol lle mae'r camdriniaeth neu'r perygl o gamdriniaeth wedi digwydd. Mae manylion cyswllt ar gael ar y wefan.

Diffiniad o Oedolyn mewn Perygl

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu o esgeulustod" fel oedolyn:

- ☐ Sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod neu sydd mewn perygl o hynny.
- ☐ Sydd ag anghenion Gofal a Chymorth (p'un a yw'r Awdurdod Lleol yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny). DS: Nid yw Gofal a Chymorth yn cael eu diffinio'n glir yn y Ddeddf, **ac;**
- ☐ O ganlyniad i'r anghenion hynny, rhywun nad yw'n medru amddiffyn ei hun rhag y camdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl o hynny.

Mae cynnwys y geiriau 'mewn perygl' yn niffiniad newydd Llywodraeth Cymru yn golygu bod modd ymyrryd yn fuan i amddiffyn oedolyn mewn perygl ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Nid yw'n ofynnol bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd er mwyn gwneud penderfyniad i weithredu. Y nod yw amddiffyn pobl sydd mewn angen a'u helpu nhw i atal y camdriniaeth neu esgeulustod rhag digwydd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi dileu "niwed sylweddol" fel trothwy ar gyfer cymryd camau diogelu. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i symud i ffwrdd o weithdrefnau sy'n cael eu hysgogi gan broses ffurfiol i ddull sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau lle mae gan yr unigolyn a'r holl weithwyr proffesiynol rôl i'w chwarae. Fodd bynnag, er mwyn rheoli'n effeithiol yr holl bryderon diogelu a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol mae angen gwahaniaethu rhwng pryderon lefel isel a'r rheini sy'n fwy difrifol eu natur. Felly, mae'r ddogfen ranbarthol hon yn cynnwys "risg sylweddol o niwed" fel trothwy wedi ei fesur ar gyfer rhoi gweithdrefnau diogelu ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, mae

mecanweithiau eraill yn bodoli i gael cymorth y tu hwnt i'r broses ddiogelu ffurfiol.

Diffiniad o Ofal a Chymorth

Mae Gofal a Chymorth yn cael eu diffinio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel:

- ☐ Gofal
- ☐ Cymorth;
- ☐ Gofal a Chymorth

Gall anghenion Gofal a Chymorth ymddangos yn amlwg, ond yn aml nid yw hyn yn wir. Fodd bynnag, gall sefydlu unrhyw anghenion Gofal a Chymorth ddod yn amlwg yn ystod sgwrs gyda'r oedolyn.

Patrymau Camdriniaeth

Mae patrymau camdriniaeth yn amrywio ac yn adlewyrchu dynameg gwahanol iawn mewn perthnasoedd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Camdrin cyfresol, sef pan fydd ffynhonnell y niwed yn chwilio am unigolyn ac yn magu perthynas amhriodol gyda nhw. Mae camfanteisio rhywiol weithiau'n rhan o'r patrwm hwn ynghyd â mathau eraill o gamfanteisio troseddol a chamdrin ariannol;

Camdrin hirdymor yng nghyd-destun perthynas deuluol sy'n parhau, fel trais domestig rhwng gŵr/gwraig neu genedlaethau neu gamdriniaeth seicolegol barhaus (gudd); neu

Mae **Camdrin oportiwnistaidd** yn cael ei ddiffinio felly a gall gynnwys dwyn oherwydd bod arian neu gemwaith wedi cael eu gadael ar hyd y lle.

Diffiniad o Gamdriniaeth neu Esgeulustod

Ystyr **camdrin** yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol. Ystyr **esgeulustod** yw methiant i gwrdd ag anghenion sylfaenol corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar les yr unigolyn.

Camdrin Corfforol – yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol: taro, slapio, gorddefnydd neu gamddefnydd o feddyginiaeth, cyfyngiadau gormodol neu sancsiynau amhriodol

Esgeulustod – yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol: methiant i gael gofal meddygol neu wasanaethau, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methiant i roi meddyginiaeth a ragnodir, methiant i roi cymorth gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, lloches, dillad; esgeulustod emosiynol.

Camdrin Ariannol – yn cynnwys dwyn arian neu eiddo arall, twyllo, rhoi pwysau ar

bobl yn gysylltiedig ag arian neu eiddo arall neu gamddefnyddio arian neu eiddo arall. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys: newid annisgwyl i'w hewyllys; gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn; gweithgaredd anghyffredin mewn cyfrif banc; cynnwys enwau ychwanegol yn sydyn ar gyfrif banc; nid yw'r llofnod yn debyg i lofnod tebyg yr unigolyn; anfodlonrwydd neu bryder ar ran yr unigolyn i drafod ei faterion ariannol; rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti; perthynas neu drydydd parti arall yn cymryd diddordeb yn lles yr unigolyn; biliau heb eu talu; cwynion bod eiddo personol ar goll; ymddangosiad personol yr unigolyn yn dirywio a all awgrymu bod gofynion deiet a phersonol yn cael eu hanwybyddu; cadw'r unigolyn ar wahân i ffrindiau a theulu yn fwriadol gan olygu bod rhywun arall mewn rheolaeth lwyr o'u penderfyniadau.

Camdrin Seicolegol – yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol: bygythiadau o achosi niwed neu adael yr unigolyn, rheolaeth drwy orfodaeth, sarhad, camdrin geiriol neu hiliol, cadw ar wahân o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol neu eu dileu; mae rheolaeth drwy orfodaeth yn weithred neu batrwm o weithredoedd sy'n cynnwys ymosod, bygythiadau, sarhau, brawychu neu fath arall o gamdriniaeth a ddefnyddir i achosi niwed i'r dioddefwr, ei gosbi neu godi ofn arno.

Camdrin Rhywiol – yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol: treisio ac ymosodiadau rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn mewn perygl wedi cydsynio iddynt neu na allai gydsynio iddynt a/neu rhoddwyd pwysau arno i gydsynio iddyn

oses yr Ymchwiliad Diogelu

Os yw'r pryder yn ymwneud â pherygl sydd ar fin digwydd neu os ydych yn amau bod trosedd ddifrifol wedi digwydd, **ffoniwch 999 ar unwaith**

Barn Broffesiynol

Achos rhesymol i amau BOD Oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod

Oedolyn **DDIM** mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, ond mae angen Gofal a Chymorth arno

Adroddiad

Cyfeirio'r pryder at yr Awd. Lleol

Adrodd yn uniongyrchol i Gofal Cymdeithasol neu'r Sector Arbenigol Trydydd Sector i roi sylw i anghenion Gofal a Chymorth

Sgrinio

Sgrinio cychwynnol y pryder cyn pen 1 diwrnod gwaith i wirio cywirdeb cyffredinol yr atgyfeiriad (a chamau gweithredu os oes eu hangen)

Ymholiadau Cychwynnol

Cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl yr adroddiad bydd yr Awd. Lleol yn casglu, cydlynu ac adolygu gwybodaeth ychwanegol

PENDERFYNIAD

Ar y 7fed diwrnod neu'n gynt, bydd yr Awd. Lleol yn penderfynu a oes gan yr oedolyn:

- Anghenion gofal a chymorth;
- a yw mewn perygl o gamdriniaeth/esgeulustod; a
- pha gamau (os o gwbl) sydd angen eu cymryd a gan bwy.

Ystyriwch ddymuniadau, teimladau, ymgysylltiad y Defnyddiwr Gwasanaeth/Eiriolwr drwy'r broses lle bynnag y bo'n bosibl

Penderfyniad

ATAL		AMDDIFFYN	
Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	**Rheoli ar Lefel Asiantaethol / Leol**	**Gweithdrefnau Diogelu Ffurfiol Cymru**	**Ymyriadau Critigol a Gweithredu ar unwaith**

Er ei bod yn debygol na fydd rhai pryderon yn mynd y tu hwnt i gam ymchwiliad cychwynnol y broses ddiogelu, bydd yr atgyfeiriad yn dal i gael ei gofnodi, ei asesu a'i adolygu gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn ystyried a gafodd camau priodol eu cymryd/a ydynt yn cael eu cymryd neu a fyddant yn cael eu cymryd i reoli'r risgiau a nodwyd. Gall hyn gynnwys gwirio a yw'r atgyfeiriwr wedi darparu gwybodaeth neu gyngor, wedi atgyfeirio at asiantaeth neu weithiwr proffesiynol arall; neu wedi trefnu asesiad o anghenion Gofal a Chymorth.

O ran yr elfen **AMDDIFFYN** lle cafodd adroddiad diogelu ei lunio mae Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg a Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynnig arweiniad pellach ar broses 'benderfynu' timau diogelu'r Awdurdod Lleol. Daw'r tabl isod o dudalen 37 y canllaw.

Cyfarfod Strategaeth: O fewn 7 diwrnod gwaith i gwblhau'r ymchwiliad– Amlasiantaeth i gytuno ar yr ymateb a'r cam gweithredu i'w gymryd.

Lle mae'n amlwg y dylid cynnal ymchwiliad Heddlu – y cyfarfod strategaeth fydd y fforwm ar gyfer penderfynu pa gamau dylid eu cymryd.

↓

Penderfyniad ar y camau i'w cymryd. Canlyniad ymchwiliad Adran 126

Penderfyniad 1: Amddiffyn ar Unwaith

- ☐ Symud yr unigolyn i ffwrdd o'r risg uniongyrchol
- Cyfarfodydd strategaeth pellach (fel y bo'r angen)
- ☐ Cynhadledd achos – cytuno ar Ofal a Chymorth
- ☐ Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth dan Rhan 4 (fel y bo'r angen)

Penderfyniad 2: Nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ond gall fod ganddo anghenion eraill am wasanaethau gofal a chymorth

- ☐ Hysbysu'r unigolyn bod dyletswyddau dan adran 126 o'r Ddeddf yn dod i ben
- ☐ Asesiad dan Ran 3 o Ddeddf 2014 (fel y bo'n briodol)
- ☐ Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 4

Penderfyniad 3: Oedolyn sy'n wynebu risg ac angen camau gweithredu i'w amddiffyn

- ☐ Cyfarfodydd strategaeth pellach (fel y bo'r angen)
- ☐ Cynhadledd achos – cytuno ar Ofal a Chymorth
- ☐ Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth dan Ran 4 (fel y bo'r angen).

↓

Adolygu a Chau

Pryderon Proffesiynol (Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru)

Mae rheoli achosion o dan Adran 5 yn gymwys i amrediad ehangach o honiadau na'r rhai lle mae achos rhesymol i gredu bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg neu'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed. Mae'n gymwys hefyd i bryderon a fyddai'n awgrymu bod unigolyn yn anaddas i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn eu sefyllfa bresennol neu mewn unrhyw gapasiti. Dylai gael ei ddefnyddio ym mhob achos lle honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg wedi gweithredu fel a ganlyn:

- Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi achosi niwed neu a allai fod wedi achosi niwed i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.

- Wedi cyflawni trosedd o bosibl yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg

- Wedi ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolion sy'n wynebu risg mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn anaddas i weithio gyda naill ai/neu oedolion a phlant

Mae'n bwysig ymgynghori gyda'r Unigolyn Diogelu Dynodedig yn eich sefydliad os nad ydych yn siŵr a oes angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu.

Bydd adroddiadau/atgyfeiriadau Pryderon Proffesiynol yn cael eu rheoli o dan weithdrefnau Diogelu Cymru a dylid eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol yn unol ag adroddiad/atgyfeiriad diogelu. Os yw'r pryder yn ymwneud â gweithiwr mewn asiantaeth bartner (e.e. staff Iechyd/yr Heddlu), bydd y cyfarfod yn cael ei drefnu a'i gadeirio gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig /Swyddog Dynodedig (LADO) yr Awdurdod Lleol.

Camdrin Sefydliadol / Trefniadol

Camdrin sefydliadol neu drefniadol yw camdrin pobl oherwydd diffyg gofal neu gymorth, neu ofal neu gymorth diffygiol, neu ymarfer gwael systematig sy'n effeithio ar y lleoliad gofal cyfan. Mae'n digwydd pan fydd dymuniadau ac anghenion yr unigolyn yn cael eu haberthu er mwyn sicrhau bod grŵp, gwasanaeth neu sefydliad yn rhedeg yn llyfn.

Mewn lleoliadau ffurfiol mae camdrin sefydliadol neu drefniadol yn llawer mwy tebygol o ddigwydd os yw'r staff :

- heb dderbyn hyfforddiant digonol

- heb gael eu goruchwylio'n dda

- heb dderbyn cymorth gan y rheolwyr

- mae ganddynt sgiliau cyfathrebu gwael

- maent yn rhan o ddiwylliant 'caeedig', er enghraifft, lleoliad gofal lle nad yw syniadau newydd, ymwelwyr, dulliau rheoli gofal neu ymgysylltiad proffesiynol eraill yn cael eu hannog

Gall camdrin sefydliadol neu drefniadol gynnwys mwy nag un camdriniwr, a gall nifer o bobl hefyd fod yn dioddef yr un gamdriniaeth. Dylai fod gan bob sefydliad sy'n gweithio gydag oedolion weithdrefnau chwythu'r chwiban/codi pryderon a dylai'r holl staff ddeall y drefn ar gyfer adrodd am y sefydliad neu aelod staff arall.

Dylai bob aelod staff/ymarferydd wybod fod ganddo ddyletswydd i fynd at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, yn annibynnol, i drafod unrhyw bryderon sydd ganddo am gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed ac y dylent bob amser wneud hynny:

- os oes ganddynt bryderon bod eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu berchennog yn gysylltiedig;

- mae ganddynt bryderon na fydd y rheolwr, yr ymarferydd dynodedig neu'r perchennog yn ystyried y mater o ddifrif a/neu'n gweithredu'n briodol i amddiffyn yr oedolyn; neu

- maent yn ofni cael eu bygwth a/neu mae ganddynt bryderon ar unwaith am ddiogelwch y defnyddwyr gwasanaeth neu eu diogelwch eu hunain

Dylai pryderon yn ymwneud â Chamdrin Sefydliadol / Trefniadol **sylweddol, sy'n gwaethygu neu'n ailadroddus** gael eu trin fel mater diogelu a'u cyfeirio at yr Awdurdod Lleol gan ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd am Ddiogelu Oedolion ranbarthol.

Trais yn erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae pob math o drais a chamdriniaeth yn annerbyniol. Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn amlinellu fframwaith deddfwriaethol a strategaeth a gweledigaeth hirdymor yng Nghymru i fynd i'r afael â materion o'r fath. Bydd hyn yn eich helpu chi i sicrhau bod unrhyw un sy'n profi camdriniaeth fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth hon yn derbyn ymateb effeithiol ac amserol gan awdurdodau perthnasol.

Un o elfennau allweddol deddfwriaeth a fframwaith y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod ar Sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yw "Gofyn a Gweithredu". Mae'r broses hon yn golygu cynnal ymchwiliad wedi'i dargedu i'w ymarfer ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus i adnabod trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term ymchwiliad wedi'i dargedu yn disgrifio'r gydnabyddiaeth o ddangosyddion o drais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol i ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'r cleient a yw wedi cael ei heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r fframwaith "Gofyn a Gweithredu" cysylltiedig yw un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol o ran ymarfer yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cam-drin Domestig a'r Broses o Ddiogelu Oedolion

Mae Trais a Cham-drin Domestig yn aml yn cael eu ystyried fel "unrhyw achos o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng oedolion sydd mewn perthynas gyda'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas gyda'i gilydd, neu rhwng aelodau o'r teulu, ni waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb".

Wrth ystyried pa gymorth ddylai gael ei gynnig i'r rheini sydd o bosibl yn cael eu cam-drin fel hyn, yn yr achosion hynny lle daw'n amlwg bod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth, neu mae'n bosibl bod ganddo anghenion o'r fath, yna dylid llunio adroddiad/atgyfeiriad diogelu.

Mae'n bwysig pan fyddwch yn siarad gyda'r unigolyn eich bod chi'n cytuno gyda nhw beth yw'r gwasanaethau gorau i'w cynorthwyo gyda'r cam-drin domestig, yr amgylchiadau sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed a beth fyddent yn hoffi ei wneud er mwyn cael ateb neu gymorth i wneud penderfyniadau.

I gael cyngor/cymorth arbenigol:

- Llinell gymorth Byw Heb Ofn: 0808 8010 800
- Gwasanaeth testun: 078600 77333
- E-bost: info@livefearfreehelpline.wales

Adolygiadau Ymarfer Oedolion (AYO)

Yn unol â Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, mae gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ddyletswydd statudol i gynnal adolygiadau ymarfer Oedolion amlasiantaethol mewn amgylchiadau lle mae digwyddiad arwyddocaol o gam-drin neu esgeuluso oedolion sy'n wynebu risg yn hysbys neu'n cael ei amau.

Nid yw adolygiadau ymarfer yn ymchwilio i sut gwnaeth oedolyn farw neu gael ei anafu'n ddifrifol, nac ychwaith yn ystyried pwy sy'n gyfrifol. Materion i'r crwneriaid a'r llysoedd troseddol yw'r rhain i benderfynu fel sy'n briodol.

Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn ffordd i'r holl asiantaethau partner i nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o achosion Diogelu Oedolion hynod o gymhleth neu anodd ac i roi newidiadau ar waith i wella gwasanaethau yng ngoleuni'r gwersi hyn. Mae'n ofynnol i'r holl asiantaethau, gan gynnwys darparwyr a gomisiynwyd, i gydweithio a chymryd rhan yn broses AYO.

Yn ôl ‘Gweithio gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion mae’n rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolyn lle mae oedolyn sy’n wynebu perygl:

- ☐ wedi marw; neu
- ☐ wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- ☐ wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i’w iechyd; a
- ☐ naill ai mae’r cam-drin neu’r esgeulustod yn hysbys neu’n cael eu hamau o fod yn ffactor cyfrannol.

Ceisiadau am Adolygiad Ymarfer Oedolion

Pan fydd oedolyn yn marw neu’n cael ei anafu’n ddifrifol, ac mae cam-drin neu esgeulustod yn hysbys neu’n cael eu hamau o fod yn ffactor, y flaenoriaeth i sefydliadau lleol ddylai ystyried ar unwaith a oes oedolion eraill yn dioddef niwed neu’n debygol o ddioddef niwed ac felly mae angen eu diogelu (aelodau’r teulu, neu oedolion eraill yn y lleoliad). Lle mae pryderon o’r fath yn bodoli, dylid dilyn gweithdrefnau amddiffyn oedolion a diogelu lleol.

Gall unrhyw aelod o’r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, unrhyw asiantaeth neu ymarferydd unigol a gefnogir gan ei reolwr llinell godi pryder ynglŷn ag achos y credir ei fod yn bodloni’r meini prawf uchod. Gellir gofyn am gyngor (ond nid yw hyn yn hanfodol) gan aelod asiantaeth y Bwrdd cyn atgyfeirio’r achos.

Bydd Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gallu cynghori gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol ynglŷn â’r broses AYO a chynghori ynglŷn â’r achosion hynny lle mae amheuon a ydynt yn bodloni’r meini prawf.

Dylid cyflwyno’r holl atgyfeiriadau yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio berthnasol y Bwrdd. Cyfrifoldeb y sawl sy’n atgyfeirio’r achos yw casglu ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer yr atgyfeiriad cychwynnol.

Gellir rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i’r asiantaeth sy’n cyflwyno’r atgyfeiriad (os nad yw’n Awdurdod Lleol) gan Uned Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Arweiniol yr Awdurdod Lleol.

I gael rhagor o fanylion am y broses ranbarthol, gweler y Protocol Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Fforymau Amlasiantaeth Proffesiynol

Yn ogystal ag achosion sy’n bodloni’r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion, mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn hyrwyddo ac yn hwyluso rhaglen

barhaus a rheolaidd o Fforymau Amlasiantaeth Proffesiynol (MAPF). Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hwyluso i hyrwyddo dysgu myfyriol ac archwilio achosion ymarfer. Gallant gael eu cynnal i drafod achosion a gyfeiriwyd ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion, ond nad ydynt wedi bodloni'r meini prawf, neu mewn sefyllfaoedd lle byddai'n bosibl dysgu gwersi. Mae cysylltiad agos rhwng achosion o'r fath â chanlyniadau archwiliadau ac arolygon. Mae Grwpiau Cyflenwi Lleol yn chwarae rhan bwysig i adnabod achosion sy'n addas ar gyfer Fforymau Amlasiantaeth Proffesiynol. Mae canlyniadau'r Fforymau yn cael eu monitro a'u goruchwylio gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru drwy'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Mae canlyniadau dysgu a nodwyd gan Fforymau Amlasiantaeth Proffesiynol hefyd yn cael eu hadrodd i'r Is-grŵp Rhanbarthol a Hyfforddiant Rhanbarthol a fydd yn argymell sut dylai'r canlyniadau dysgu gael eu rhannu'n rhanbarthol ar sail amlasiantaethol.

Rhyngwyneb gyda Diogelu Plant

Os ydych yn gweithio gydag oedolyn ac mae gennych bryderon, ac mae yna fabi heb ei eni neu blant/pobl ifanc yn byw gyda'r oedolyn hwnnw neu mewn cyswllt gyda'r oedolyn hwnnw, mae'n rhaid i chi ystyried diogelwch a lles y plant hynny hefyd. Gweler y Ffurflen Adrodd am Blant amlasianteithiol ranbarthol ar y wefan.

Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar nifer o bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau rhanbarthol – mae'r rhain i'w cael ar wefan y Bwrdd. Polisïau a Gweithdrefnau • Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Sylwer, mae'r Canllaw yn ymdrin â sbectrwm eang o bryderon a all godi yng nghyd-destun diogelu oedolion. Mae hyn yn amrywio o bryderon lefel isel sy'n gofyn am gamau ataliol i sefyllfaoedd lle mae niwed yn sylweddol ac yn digwydd ar y pryd, lle mae angen cynnal ymchwiliad ffurfiol.

Nid yw pob enghraifft posibl wedi'i rhestru ac nid yw'r enghreifftiau hyn yn ymdrin â phob sefyllfa ddiogelu a ni ddylent atal gweithwyr proffesiynol a gweithwyr eraill rhag defnyddio eu barn broffesiynol ar sail achosion unigol. Lle bo'n bosibl, rhaid ystyried safbwyntiau a dymuniadau'r unigolyn bob amser cyn gweithredu. Os yw gweithiwr neu weithiwr proffesiynol yn ansicr neu ddim yn gwbl glir pa lwybr yw'r mwyaf addas, dylai ofyn am gyngor ei reolwr llinell neu ymgynghorydd diogelu dynodedig yn y lle cyntaf. Gellir gofyn am gyngor ac arweiniad pellach gan y ddesg ddyletswydd berthnasol ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol.

CAMDRINIAETH GORFFOROL				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Camgymeriad staff yn achosi ychydig neu ddim niwed, e.e. marc ffrithiant ar y croen o ganlyniad i sling teclyn codi yn ffitio'n wael Un digwyddiad / Anghydfod rhwng defnyddwyr gwasanaeth heb ddim niwed, wedi ei ddatrys yn gyflym ac mae asesiad risg yn ei le Nid yw'r oedolyn yn derbyn y feddyginiaeth ragnodedig, mae'n colli dos neu'n cael y ddos anghywir. Does dim niwed yn digwydd Gweithdrefnau symud a chario priodol heb eu dilyn ar un achlysur, ond heb achosi niwed. Nid yw'r oedolyn yn derbyn y cymorth symudedd a argymhellwyd ar un achlysur, ond heb achosi niwed Un digwyddiad pan syrthiodd y gofalwr i gysgu ar ddyletswydd. Nid achoswyd niwed – dal yn fater disgyblu neu reoli Cleisio a achoswyd gan ofalwr teuluol oherwydd techneg codi a gafael wael. Ni fwriadwyd niwed. Cafodd y mater ei ddatrys ar unwaith pan roddwyd y cyngor/offer cywir Mân ddigwyddiadau sy'n dal i fodloni'r meini prawf ar gyfer hysbysu am ddigwyddiad	Mân farciau ysgafn anesboniadwy wedi eu canfod heb esboniad clir sut y digwyddodd yr anaf Colli meddyginiaeth neu gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro mewn perthynas ag un defnyddiwr gwasanaeth ond heb achosi niwed. Un digwyddiad lle mae defnyddiwr gwasanaeth yn achosi niwed i un arall	Anafiadau anesboniadwy / marciau neu friwiau, toriadau neu olion gafael ar fwy nag un achlysur Colli meddyginiaeth neu gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro sy'n effeithio ar fwy nag un oedolyn a/neu'n arwain at niwed Digwyddiad y gellid ei ragweld a'i atal rhwng dau oedolyn agored i niwed lle cafwyd anafiadau neu lle yr achoswyd gofid emosiynol – mae'r staff yn methu ag atal Oedolyn yn cael anaf oherwydd anwybyddu gweithdrefnau cyffredin . Mae niwed yn digwydd Nifer o fân ddigwyddiadau neu gynnydd sy'n bodloni meini prawf ar gyfer adrodd Rheoliad 26/38	Dal bwyd, diodydd neu gymhorthion i annibyniaeth yn ôl Rhoi meddyginiaethau yn guddiedig heb awdurdodiad meddygol priodol neu y tu allan i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol Anafiadau anesboniadwy difrifol Camweinyddu meddyginiaethau yn fwriadol, e.e. llonyddu Defnyddio ataliad corfforol amhriodol / gormod o feddyginiaeth i reoli ymddygiad y tu allan i gynllun gofal penodol, neu'n anghymesur â'r risg	Patrwm o gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro neu gamweinyddu bwriadol sy'n arwain at afiechyd neu farwolaeth Niwed corfforol difrifol/ymosodiad ag arf neu heb un, yn arwain at niwed parhaol neu farwolaeth, gan gynnwys Anffurfio organau cenhedlu benywod Ymosodiadau corfforol – anaf/marwolaeth Unrhyw weithred droseddol gorfforol bosibl yn erbyn oedolyn mewn perygl

ESGEULUSTOD - *DIM yn cynnwys hunan-esgeuluso - Cyfeiriwch at Bolisi Hunan esgeuluso Gogledd Cymru*				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Colli un ymweliad gofal cartref heb niwed yn digwydd Oedolyn ddim yn cael cymorth gyda phryd o fwyd/diod ar un achlysur a dim niwed yn digwydd Trosglwyddiadau gwael rhwng gwasanaethau a dim niwed yn digwydd, e.e. rhyddhau claf o'r ysbyty heb gynllunio digonol Nid yw oedolyn yn cael bath mor aml ag yr hoffai. Dim niwed wedi ei achosi Ffurflen DNACPR (Peidiwch â Cheisio Adfywio'r Galon a'r Ysgyfaint) ddim yn ddilys oherwydd camgymeriad / llofnodion ar goll a/neu rif y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), neu Penderfyniad DNACPR heb ei gyfleu'n effeithiol, neu Y ffurflen DNACPR a'r copïau carbon heb eu ffeilio a/neu eu dosbarthu'n gywir a DIM niwed wedi ei achosi.	Diffygion yn y gofal a ddarperir sy'n arwain at anesmwythdra neu anghyfleustra a dim niwed sylweddol yn digwydd, e.e. cael ei adael yn wlyb weithiau Ambell waith ddim yn cael mynediad at gymhorthion i fyw'n annibynnol. (Os yn rheolaidd, ystyried atal) Oedolyn mewn perygl yn byw gyda Gofalwr teuluol sy'n methu yn ei ddyletswyddau gofalu Cyfyngiadau amgylche ddol dros dro, ond camau i ddatrys hyn yn eu lle Diffygion achlysurol mewn gofal gan ofalwyr anffurfiol. Dim niwed Nid yw'r cynllun gofal yn mynd i'r afael â risg o niwed a dim niwed yn digwydd e.e. Rheoli ymddygiad i ddiogelu hunan neu eraill	Colli ymweliadau gofal cartref yn rheolaidd lle mae'r perygl o niwed yn cynyddu, neu colli un ymweliad lle mae niwed yn digwydd Trosglwyddiadau gwael rhwng gwasanaethau a niwed yn digwydd, e.e. rhyddhau claf o'r ysbyty heb gynllunio digonol Nid yw oedolyn agored i niwed sy'n dueddol i wlserau gwasgu yn cael ei asesu'n ffurfiol a niwed yn digwydd Nid yw'r cynllun gofal yn mynd i'r afael â'r risg o niwed ac mae niwed yn digwydd Rheoli ymddygiad i ddiogelu hunan neu eraill	Diffyg gofal parhaus i'r graddau bod iechyd a lles yn dirywio'n sylweddol e.e. briwiau gwasgu, diffyg hylif, diffyg maeth, colli annibyniaeth / hyder Gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr cyflogedig yn camreoli briwiau neu niwed gwasgu Ffurflen DNACPR ddim yn ddilys oherwydd camgymeriad / llofnodion ar goll a/neu rif y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), neu Penderfyniad DNACPR heb ei gyfleu'n effeithiol, neu Y ffurflen DNACPR a'r copïau carbon heb eu ffeilio a/neu eu dosbarthu'n gywir a niwed wedi ei achosi.	Anaf difrifol neu farwolaeth am fod canlyniadau briw gwasgu, y gellid bod wedi eu hosgoi, wedi datblygu, e.e. septicemia Methiant i drefnu mynediad at wasanaethau achub bywyd neu ofal meddygol Methiant i ymyrryd mewn sefyllfaoedd peryglus lle nad oes gan yr oedolyn y galluedd i asesu risg Esgeulustod dybryd yn arwain at anaf difrifol neu farwolaeth

CAMDRINIAETH RYWIOL – *yn cynnwys camfanteisio rhywiol*				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Un digwyddiad ynysig pan wnaed sylw rhywiol amhriodol i oedolyn sydd â galluedd a dim gofid wedi ei achosi Un digwyddiad o sylw rhywiol digroeso / cyffwrdd lefel isel, wedi'i gyfeirio gan un oedolyn at un arall, p'un a oes capasiti yn bodoli neu beidio. Dim niwed na gofid wedi ei achosi	Ychydig bach o dynnu coes neu aflonyddu rhywioledig Dau o bobl y ceir rheswm i amau eu bod heb alluedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol neu berthynas (y mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na ellwch wneud asesiad lles pennaf yn ei gylch). Dim gofid i'r naill na'r llall	Sylw rhywiol rhwng dau ddefnyddiwr gwasanaeth lle mae un heb alluedd i gydsynio. Dau o bobl y ceir rheswm i amau eu bod heb alluedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol neu berthynas (y mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na ellwch wneud asesiad lles pennaf yn ei gylch) ac mae niwed neu ofid yn cael ei achosi i'r naill barti neu'r llall. Cyffwrdd rhywiol neu fastyrbio heb gydsyniad dilys. Derbyn amlygiad anweddus Ymddygiad rhywioledig gyda chyswllt neu heb gyswllt sy'n achosi gofid i'r person mewn perygl	Wedi ceisio treiddio drwy unrhyw ddull (p'un a yw'n digwydd o fewn perthynas neu beidio) heb gydsyniad dilys. Cael ei orfodi i edrych ar ddeunydd pornograffig yn erbyn ei ewyllys / lle na ellir rhoi cydsyniad dilys.	Treiddio drwy unrhyw ddull (p'un a yw'n digwydd o fewn perthynas neu beidio) heb gydsyniad dilys. Rhyw mewn perthynas a nodweddir gan ddiffyg cybwysedd grym, gorfodaeth neu gamfanteisio, e.e. aelod o staff a defnyddiwr gwasanaeth neu ddefnyddiwr gwasanaeth a defnyddiwr gwasanaeth Rhyw heb gydsyniad dilys (trais rhywiol). Sbecian heb gydsyniad

CAMDRINIAETH SEICOLEGOL/EMOSIYNOL				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Un digwyddiad lle mae rhywun yn siarad ag oedolyn mewn ffordd anghwrtais neu amhriodol – parch yn cael ei danseilio – DIM gofid wedi ei achosi Gwawdio neu ffrwydrad geiriol unwaith – DIM gofid wedi ei achosi Un bygythiad o adael ee: bygythiad i dynnu ymweliadau/cyswllt cymdeithasol a chymorth yn ôl. DIM gofid wedi ei achosi	Digwyddiad yn ailddigwydd weithiau o wadu neu fethu â chydnabod dewis neu farn oedolyn. Triniaeth sy'n cael ei hailadrodd weithiau sy'n tanseilio urddas a hunan-barch Ailadrodd bygythiadau weithiau o adael ee: bygythiadau i dynnu ymweliadau/cyswllt cymdeithasol a chymorth yn ôl. Weithiau gwawdio neu ffrwydrad geiriol fwy nag unwaith	Digwyddiad yn ailddigwydd yn barhaus o wadu neu fethu â chydnabod dewis neu farn oedolyn gan achosi niwed Peidio â datgelu gwybodaeth er mwyn dadrymuso'r oedolyn mewn perygl Bygythiadau parhaus o adael yn achosi niwed neu ofid Codi cywilydd yn aml ar oedolyn mewn perygl	Gwawdio o hyd neu ffrwydrad geiriol sy'n achosi gofid parhaus. Peidio â datgelu gwybodaeth yn barhaus er mwyn dadrymuso ac mae niwed neu ofid yn cael ei achosi Triniaeth barhaus sy'n tanseilio urddas ac yn niweidio parch. Gwrthod yn gyson neu fethu â chydnabod dewis neu farn oedolyn	Codi ofn yn barhaus a bwlio yn achosi gofid ac ymdrechion i ddatrys hyn wedi methu Blacmel emosiynol e.e. bygythiadau cyson i adael / niweidio sy'n peri gofid. Amddifadu o hawliau dynol sylfaenol / hawliau sifil, gwrthwneud cyfarwyddeb ymlaen llaw, priodas dan orfod, caethwasiaeth fodern. Codi ofn dros gyfnod maith / erledigaeth. Cynhyrchu a dosbarthu lluniau amhriodol drwy unrhyw gyfryngau cymdeithasol Ymosodiadau geiriol personol / ffyrnig

CAMDRINIAETH WAHANIAETHOL – *yn cynnwys Troseddau Casineb/Cyfeillio*				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Un digwyddiad pan wneir sylw niweidiol, amhriodol i oedolyn a dim gofid wedi ei achosi	Un digwyddiad o bryfocio dan gymhelliad agweddau niweidiol gan ddefnyddiwr gwasanaeth i ddefnyddiwr gwasanaeth Gwawdio yn ailddigwydd Mae'r cynllun gofal yn methu â mynd i'r afael ag amrywiaeth oedolyn a'r anghenion cysylltiedig am gyfnod byr	Mynediad annheg at ddarpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i fater amrywiaeth Methiant cyson i fodloni anghenion gofal/cymorth penodol sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth Targedu parhaus ac aml gan eraill yn y gymuned sy'n manteisio ar oedolyn mewn perygl Tynnu coes gan berson mewn safle o ymddiriedaeth	Peidio â chael mynediad at wasanaethau hanfodol Gwadu hawliau sifil e.e. pleidleisio, gwneud cwyn Codi cywilydd neu fygythiadau yn rheolaidd Gwrthod deiet priodol i unigolyn, mynediad i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'i ffydd neu gredoau, neu beidio â defnyddio'r enw sydd orau gan y person Sicrhau bod oedolyn mewn perygl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n amhriodol i'w ffydd neu gredoau	Troseddau casineb yn arwain at anaf/triniaeth feddygol frys/ofn am ei fywyd Troseddau casineb yn arwain at anaf difrifol neu ymgais i lofruddio, a Thrais ar Sail Anrhydedd Camfanteisio ar oedolyn mewn perygl ar gyfer recriwtio neu radicaleiddio i weithgaredd cysylltiedig â therfysgaeth Anffurfio organau cenhedlu benywod

CAMDRINIAETH ARIANNOL				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Nid yw arian yn cael ei reoli'n ddiogel neu'n cael ei gofnodi'n briodol – un digwyddiad a dim niwed wedi ei achosi Un digwyddiad o aelod o staff yn elwa'n bersonol ar y cymorth y mae'n ei gynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd nad yw'n golygu camddefnyddio arian mewn gwirionedd, e.e. ychwanegu pwyntiau ar ei gerdyn teyrngarwch siop ef/hi ei hun Un digwyddiad o berson sy'n dal Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer Eiddo a Materion Ariannol, wedi defnyddio cyllid y rhoddwr yn amhriodol sy'n cynnwys swm bach o arian, lle nad achoswyd unrhyw niwed. Dylid cryfhau cyngor a chanllawiau yn ymwneud â'r Cod Ymarfer ar gyfer Atwrneiod dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (Pennod 7, a 7.50-7.74 yn benodol).	Arian ddim yn cael ei reoli'n ddiogel na'i gofnodi'n briodol ar fwy nag un achlysur Oedolyn ddim yn cael ei gynnwys yn rheolaidd mewn penderfyniadau ynghylch y modd y caiff ei arian ei wario neu ei gadw. Nid yw gallu yn hyn o beth yn cael ei ystyried yn briodol ac nid oes tystiolaeth o bwysau gormodol na gorfodaeth. Methiant gan berthynas i dalu ffioedd gofal / taliadau pan na fo unrhyw niwed wedi digwydd 3ydd parti yn camddefnyddio arian Oedolyn mewn Perygl	Arian oedolyn yn cael ei gadw mewn cyfrif banc ar y cyd, trefniadau aneglur ar gyfer rhannu cyfalaf a llog yn deg Oedolyn yn cael ei rwystro rhag cael mynediad at ei arian neu ei eiddo ei hun Mae pryderon y gall person sy'n dal Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer Eiddo a Materion Ariannol person fod yn camddefnyddio arian y person yn gyson ac nad yw'n gweithredu er ei les pennaf a/neu efallai ei fod yn elwa'n ariannol o'i safle fel Atwrnai ac nad yw'n ymddangos ei fod yn gweithredu'n unol â chod ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer Atwrneiod.	Camddefnyddio / camfeddiannu eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau gan berson mewn safle o ymddiriedaeth neu reolaeth Materion ariannol personol yn cael eu tynnu o reolaeth oedolyn heb awdurdod cyfreithiol na chydsyniad Diffyg talu ffioedd gofal / taliadau yn barhaus a'r oedolyn mewn perygl yn dioddef gofid neu niwed drwy fod heb unrhyw lwfans personol neu berygl o gael ei droi allan / terfynu gwasanaethau	Twyll / camfanteisio sy'n ymwneud â budd-daliadau, incwm, eiddo neu Ewyllys Dwyn arian neu eiddo Troseddau trothwy'r drws / sgamiau ariannol

PENODOL I DALIADAU UNIONGYRCHOL – *mae hyn yn ymwneud ag unrhyw un sy'n rheoli materion arinnol ar ran yr oedolyn mewn perygl*				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Mae ffurflenni ariannol taliadau uniongyrchol yn dangos taliadau am wariant anawdurdodedig. Un camgymeriad – dychwelwyd y taliad Un digwyddiad o dderbynnydd taliad uniongyrchol yn elwa o log ar gyfrif taliadau uniongyrchol Taliad uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio'n hyblyg i ateb anghenion y defnyddiwr ond nid fel y'i disgrifir yn y cynllun cymorth Gormod o arian yn aros yn y cyfrif taliad uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio i ddibenion heblaw y cynllun cymorth, e.e. biliau cyfleusterau neu offer. Camddealltwriaeth bosibl neu, os amheuir twyll, uwchgyfeiriwch fel trosedd bosibl Canfod bod y person cymwys fel Cynorthwyydd Personol yn gweithio yn y wlad yn anghyfreithlon. Dim niwed wedi ei achosi, ond dileu cyfrifoldeb y person cymwys, diswyddo'r Cynorthwyydd Personol.	Gormodedd mawr yng nghyfrifon y defnyddiwr sy'n dangos efallai nad oes gofal yn cael ei ddarparu Taliad uniongyrchol heb ei drefnu'n gywir er gwaethaf cyngor ac arweiniad, e.e. Cynorthwyydd Personol heb ei drefnu gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC); dim trywydd archwilio ar gyfer taliadau (h.y. dim amserlenni awdurdodedig, dim slip cyflog na phrawf o dalu anfoneb); dim yswiriant atebolrwydd Taliadau mewn arian parod wedi eu gwneud yn erbyn cyngor heb ddim tystiolaeth o'r taliad a gofal heb ei ddarparu Cafwyd gwybodaeth bod gan y person cymwys neu'r Cynorthwyydd Personol gollfarn droseddol sy'n peri pryder ynghylch ei addasrwydd ar gyfer y rôl	Patrwm o wariant anawdurdodedig gan berson yn gweithredu ar ran yr oedolyn mewn perygl gydag esboniad annigonol. Patrwm o beidio â thalu biliau/cyflog y Cynorthwyydd Personol dro ar ôl tro, yn golygu bod gofal yn cael ei dynnu'n ôl Taliadau wedi eu gwneud o gyfrif taliad uniongyrchol am wariant heb ei awdurdodi gan y person cymwys, heb fod yn y cynllun cymorth Y Person Cymwys ddim yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos ei fod yn rheoli'r taliad uniongyrchol	Nid yw'r Taliad Uniongyrchol yn cael ei wario ar beth neu'r cyfan o'r gofal yn y cynllun cymorth, gan arwain at esgeulustod Afreoleidd-dra ar ffurflenni ariannol yn arwain at geisiadau am ragor o dystiolaeth sy'n cael eu hanwybyddu'n barhaus gan y Person Cymwys neu mae camau osgoi yn cael eu cymryd, gan gynnwys osgoi ymdrechion i adolygu'r person ar y taliad uniongyrchol	Camddefnyddio / camfeddiannu'r taliadau uniongyrchol gan un arall, gan gynnwys: Unigolyn mewn safle o ymddiriedaeth neu berson cymwys, e.e. Mae'r Person Cymwys yn defnyddio peth o'r Lwfans Personol neu amser asiantaeth ar gyfer ei anghenion ei hun, ac mae'r unigolyn yn cael ei esgeuluso Creu Cynorthwyydd Personol dychmygol lle mae'r taliad yn mynd mewn gwirionedd i'r Person Cymwys Mae oedolyn mewn perygl yn camddefnyddio / camfeddiannu taliad uniongyrchol y derbynnydd, ond o dan orfodaeth rhywun arall

CAMDRINIAETH SEFYDLIADOL/GYFUNDREFNOL				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Diffyg ysgogiad / siawns i gymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasol a hamdden - dim niwed yn digwydd Yn y tymor byr, person ddim yn cael digon o lais neu ran mewn rhedeg y gwasanaeth Mae dylunio gwasanaeth lle mae grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn byw gyda'i gilydd yn amhriodol - dim niwed yn digwydd Un digwyddiad o staffio isel oherwydd amgylchiadau annisgwyl, er gwaethaf ymdrech y rheolwr i fynd i'r afael â'r broblem - dim niwed wedi ei achosi	Diffyg ysgogiad / siawns i gymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasol a hamdden - a dim gwelliant ar ôl derbyn cyngor. Gwadu unigoliaeth a chyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth wneud dewisiadau gwybodus a chymryd risgiau cyfrifol Nid yw'r dogfennau cynllunio gofal yn canolbwyntio ar y person Peidio â chaniatáu mynediad i oedolyn mewn perygl at gymorth proffesiynol a gwasanaethau, megis eiriolaeth. Arferion gofal gwael, anwybodus neu hen ffasiwn. Dim niwed sylweddol Mwy nag un digwyddiad o lefelau staffio isel, dim trefniadau wrth gefn yn eu lle. Dim niwed wedi ei achosi	Trefn ddyddiol ddiwyro neu anhyblyg Urddas y defnyddiwr gwasanaeth wedi ei danseilio, e.e. diffyg preifatrwydd yn ystod cymorth gydag anghenion gofal personol; dillad, dillad isaf a danedd gosod ac ati yn cael eu rhannu. Methiant i chwythu'r chwiban ar faterion difrifol pan fydd gweithdrefnau mewnol i dynnu sylw at faterion wedi eu dihysbyddu Methiant i gyfeirio datgeliad am gamdriniaeth DNACPR amhriodol neu anghyflawn (Peidiwch â Cheisio Adfywio'r Galon a'r Ysgyfaint) – *gweler trothwyon esgeulustod tud. 18* Arweiniodd un digwyddiad o staffio isel at niwed i fwy nag un person	Cam-drin un neu ragor o oedolion mewn perygl, megis codi a chario anniogel Methiant i adrodd, monitro neu wella arferion gofal gwael Amgylcheddau byw anniogel a budr Methiant i gynorthwyo oedolyn mewn perygl i gael mynediad at driniaethau iechyd a/neu ofal Ymateb i ymddygiadau heriol drwy gosbi Achosion ailadroddus o lefel staffio isel yn arwain at niwed i fwy nag un person	Staff yn camddefnyddio eu sefyllfa o rym dros ddefnyddwyr gwasanaeth Defnyddio gormod o feddyginiaeth a/neu gyfyngiadau amhriodol i reoli ymddygiad. Triniaeth wael gyffredinol, yn gyson Amgylcheddau byw plaen neu lwm sy'n achosi amddifadedd synhwyraidd Amddifadu o ryddid heb gael ei awdurdodi drwy broses gyfreithiol Lefelau staffio isel sy'n arwain at anafiadau difrifol neu farwolaeth i fwy nag un person (dynladdiad corfforaethol)

HUNAN-ESGEULUSTOD				
ATAL		**AMDDIFFYN**		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. *e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu*		*Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu*		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	**Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed**		
Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
Arwydd o esgeuluso ei hun, e.e. hylendid personol, ymddangosiad blêr	Arwydd o esgeuluso ei hun, e.e. hylendid personol, ymddangosiad blêr Oedolyn sy'n byw mewn amodau gwael, ac yn ei esgeuluso ei hun Arwydd o'r effaith bosibl ar iechyd	Arwydd o esgeuluso ei hun, e.e. hylendid personol, ymddangosiad blêr Oedolyn sy'n byw mewn amodau gwael, ac yn ei esgeuluso ei hun; **a** Tystiolaeth o effaith ar iechyd; **a** Amodau byw budr; **a** **Gwrthwynebu neu wrthod cynnig o gymorth a/neu wasanaethau**	Tystiolaeth o hunan esgeulustod e.e. hylendid personol, ymddangosiad blêr; **a** Oedolyn sy'n byw mewn amodau gwael, ac yn ei esgeuluso ei hun; **a** Tystiolaeth o effaith ar iechyd; **a** Amodau byw budr ac anaddas; **a** Nam gwybyddol, nam ar y synhwyrau, symudedd gwael neu gamddefnyddio sylweddau; **a** Perygl tân posibl; **a** **Gwrthwynebu neu wrthod cynnig o gymorth a/neu wasanaethau**	Tystiolaeth o hunan esgeulustod e.e. hylendid personol, ymddangosiad blêr; **a** Oedolyn sy'n byw mewn amodau gwael, ac yn ei esgeuluso ei hun; **a** Tystiolaeth o effaith ar iechyd; **a** Amodau byw fudr ac anaddas; **a** Nam gwybyddol, nam ar y synhwyrau, symudedd gwael neu gamddefnyddio sylweddau; **a** Perygl tân posibl a nodwyd; **a** **Tystiolaeth glir o risg iddo'i hun ac eraill; a** **Gwrthwynebu neu wrthod cynnig o gymorth a/neu wasanaethau**
Mewn achosion o HUNAN-ESGEULUSO mae lefel y niwed yn cynyddu gyda phob categori – yn gwaethygu o ddewis person i fyw mewn amodau gwael gydag ychydig neu ddim perygl iddo ef ei hun a/neu eraill *hyd at* y dewisiadau hynny sy'n creu perygl sylweddol iddo ef ei hun a/neu eraill.				

<table>
<tr><th colspan="4">CAETHWASIAETH FODERN</th></tr>
<tr><th colspan="2">ATAL</th><th colspan="2">AMDDIFFYN</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu</td><td colspan="2">Rhaid gwneud Adroddiad/Atgyfeiriad Diogelu</td></tr>
<tr><td>Dim niwed na risg o hynny
Risg isel o niwed</td><td>Niwed posibl neu risg o hynny
Risg canolig o niwed</td><td colspan="2">Risg Sylweddol / Hanfodol o niwed</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae angen adroddiad/atgyfeiriad diogelu er mwyn codi neu godi pryderon</td><td colspan="2">Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ystyrir bod yr holl bryderon ynglŷn â chaethwasiaeth fodern o lefel sylweddol
→</td><td>Rhyddid cyfyngedig i symud.

Cael eu gorfodi i weithio am ychydig neu ddim tâl.

Ychydig neu ddim mynediad at ofal meddygol a deintyddol.

Dim mynediad at fudd-daliadau priodol</td><td>Mynediad cyfyngedig at fwyd neu loches

Cael eu symud yn rheolaidd (masnachu) i osgoi cael eu darganfod

Colli pasbort neu ddogfennau adnabod.</td><td>Camfanteisio rhywiol.

Llwgu.

Dim rheolaeth dros symudiadau / carcharu

Priodas orfodol.

Camfanteisio ar hyd 'Llinellau Sirol'</td></tr>
</table>

CAMDRINIAETH A CHAMFANTEISIO AR-LEIN, gan gynnwys Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae angen i bob asiantaeth fod yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol mewn camfanteisio ar bobl agored i niwed. Gall pobl gael eu paratoi gan unigolion neu gangiau drwy'r rhyngrwyd ac yn uniongyrchol drwy ffonau symudol. Gall y cam-drin fod mewn ffurfiau amrywiol megis masnachu pobl, camfanteisio rhywiol, radicaleiddio, cam-drin ariannol a derbyn a rhannu delweddau anweddus ar-lein.

Mae angen i asiantaethau fod yn ymwybodol y gall y mathau hyn o gam-drin ddigwydd heb i'r dioddefwr adael ei gartref. Mae disgwyl i bob asiantaeth adrodd am bryderon wrth yr Awdurdod Lleol os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod person mewn perygl o gael ei gam-drin

fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae hyn yn cynnwys cam-drin a all ddigwydd dros y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol.

LLINELLAU SIROL

Mae 'Llinellau Sirol' yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae'r unigolyn, neu grŵp yn fwy aml, yn ymsefydlu ac yn rhedeg rhif (llinell) ffôn mewn ardal y tu allan i'w hardal arferol er mwyn gwerthu cyffuriau yn uniongyrchol i ddefnyddwyr ar lefel y stryd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys grŵp o ardal drefol yn ehangu eu gweithrediadau drwy groesi ffiniau heddluoedd i ardaloedd mwy gwledig, h.y. heddlu sirol. Mae menter 'llinellau Sirol' bron bob amser yn golygu camfanteisio ar bersonau sy'n agored i niwed.

Mae'n hanfodol i fenter llinellau sirol nodi safleoedd posibl i weithredu ohonynt. Maent yn llwyddo i sefydlu'r mannau hyn mewn nifer o ffyrdd, gan amlaf drwy gamfanteisio ar ddefnyddwyr cyffuriau lleol. Cyflawnir hyn naill ai drwy dalu iddynt mewn cyffuriau, drwy adeiladu dyled gyffuriau neu drwy ddefnyddio bygythiadau a/neu drais er mwyn eu gorfodi; adwaenir yr arferiad hwn fel 'cwcwio'. Mewn achosion eraill, mae aelodau'r grŵp wedi mynd i mewn i berthynas â merched agored i niwed er mwyn defnyddio'u tai. Os amheuir bod camfanteisio 'llinellau sirol' yn digwydd ar oedolyn mewn perygl, dylid hysbysu'r heddlu a chyflwyno MARF.

Principles of Safeguarding Investigation Screening Guidance for Falls.

This tool is to support and guide when assessing whether a Fall reaches the threshold for a Safeguarding Adult at Risk Report (Referral). This should be in conjunction with professional judgment

IF IN DOUBT - contact your Designated Safeguarding Person

1. What is the harm experienced from the fall?	No harm experienced	Harm is minimal and able to be addressed through minor intervention and first aid	Fracture, brake or dislocation to bone/s. Life limiting or altering harm. Significant impact on confidence and mental well being.
2. Does the individual have mental capacity and have they been compliant with treatment and prevention strategies? Has a capacity assessment been completed?	Has mental capacity and has declined offered treatment and prevention strategies. Mental Capacity assessment is recorded.	Does not have mental capacity or mental capacity has not been assessed in relation to treatment and prevention of falls strategies.	Assessed as not having mental capacity and treatment and prevention plan not provided,
3. Has full assessment been completed in relation to falls? If at risk has care plan been developed and implemented in a timely manner?	Documentation and equipment are available to demonstrate full assessment and review is complete, care plan has been developed and implemented.	Documentation demonstrates that assessment and review has been completed but care plan has not been fully implemented. (Some aspects may have been declined, e.g. equipment)	Poor or no documentation is available to demonstrate that a full assessment has been completed or that the care plan and general care regime (e.g. nutrition, hydration) have not been developed and not been implemented .
4. Has nurse or formal / informal carer raised concerns and sought support at an appropriate time? e.g. from falls team, physiotherapist, occupational therapist, Community Nurse, GP.	Evidence available to show concerns were raised and support was sought from a relevant professional.	Evidence is not clear that concerns were raised or support sought at the appropriate time.	No support sought.
5. Is this incident part of a trend or pattern — i.e. have there been other similar incidents or other areas of	Evidence suggests this is an isolated incident.	There have been other similar incidents or areas of concern.	Evidence demonstrates this is part of a pattern or trend in that clinical area that has not been raised or

concern?			addressed. If this is not known or no attempt to identify then a discussion with Safeguarding must take place.
	If all answers to the questions are within this green section then it is unlikely to meet threshold for Adult At Risk Report	**If 2 or more of the answers to the questions are within this yellow section then the threshold for completing an Adult At Risk report has been reached. (Please discuss this with the individual and or their advocate as appropriate)**	**If ANY of the Answers to the questions are within this red section then the threshold for completing an Adult At Risk report has been reached. (Please discuss this with the individual and or their advocate as appropriate)**

BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

Adrodd am Gam-drin neu Esgeulustod Oedolyn mewn Perygl

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond ar gyfer hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch amheuon o gam-drin neu esgeuluso oedolyn mewn perygl. Os dymunwch chi hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ryw wybodaeth arall, neu wneud cais am wasanaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol priodol.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib yn yr adroddiad. Os na fyddwch yn adrodd holl hanes yr hyn sydd wedi digwydd, gall fod oedi yn y broses o ddiogelu'r oedolyn mewn perygl. Gellir dod o hyd i ganllaw i gwblhau'r ffurflen yma.

Disgrifir "Oedolyn mewn Perygl", fel oedolyn sydd:

√ Yn dioddef, neu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod

AC

√ Angen gofal a chymorth

AC

√ O ganlyniad i'r anghenion hynny, ni all amddiffyn ei hun yn erbyn camdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl ohono.

Dyddiad Cwblhau ac Anfon y Ffurflen:	Dyddiad(au) y Digwyddiad(au) os ydych yn ymwybodol ohonynt:
Enw'r Unigolyn: Dyddiad Geni:	Rhyw: Gwryw ☐ Benyw ☐
Cyfeiriad Presennol yr Unigolyn (nodwch gyfeiriad parhaol hefyd): Os yn briodol, caiff y lleoliad ei ariannu gan:	A oes unrhyw oedolyn/ plentyn arall mewn perygl yn byw yn yr eiddo? Oes ☐ Nac Oes ☐ Os Oes, pa gamau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd:
Rhif Ffôn: Statws priodasol: Ethnigrwydd: Dewis Iaith: E-bost: A oes angen Cyfieithydd ar y Pryd Oes ☐ Nac Oes ☐ Os Oes, rhowch fanylion:	**Prif Grŵp Cleientiaid:** Yr Henoed ac Iechyd Meddwl ☐ Yr Henoed ☐ Nam ar y Golwg ☐ Nam ar y clyw ☐ Anableddau Dysgu ☐ Iechyd Meddwl ☐ Anabledd Corfforol ☐

	Arall ☐
Perthynas Agosaf: Perthynas: Cyfeiriad: Rhif ffôn:	Manylion Meddyg Teulu: Enw'r Meddyg Teulu: Cyfeiriad Meddygfa: Rhif ffôn:
1. Gwybodaeth am yr unigolyn y credir ei fod mewn perygl	
Ydi'r unigolyn mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod?	Ydi / Nac ydi
Disgrifiwch y peryglon:	
A oes unrhyw dystiolaeth i brofi bod yr unigolyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso?	Oes / Nac oes
Disgrifiwch beth sydd wedi digwydd:	
Ydi'r unigolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso ar hyn o bryd?	Ydi / Nac ydi
Disgrifiwch beth sy'n digwydd:	
Oes gan yr unigolyn hwn anghenion gofal a chefnogaeth?	Oes/ Nac Oes
Disgrifiwch ei anghenion:	
Ydi'r unigolyn yn gallu amddiffyn ei hun rhag y perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod?	Ydi / Nac ydi
Os **Nac ydi**, nodwch pam nad yw'n gallu amddiffyn ei hun.	
Ydi'r unigolyn yn ymwybodol o'r ymholiad?	Ydi/Nac ydi
Os **Nac ydi,** pam?	

Ydi'r unigolyn wedi cydsynio i'r ymholiad?	Ydi/Nac ydi
Os **Nac ydi**, pam bod y cyfeiriwr yn parhau gyda'r ymholiad?	
A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i gydsynio/deall y pryderon a/neu'r broses?	Oes/Nac Oes
Os **Oes**, a oes eiriolwr wedi cael ei hysbysu?	Oes/Nac Oes
Os **Nac oes**, pam?	
Manylion aelod o'r teulu agos/pell neu ffrind neu eiriolwr (os yn berthnasol):	
DISGWYLIR EICH BOD WEDI TRAFOD YR ADRODDIAD DIOGELU HWN GYDA'R UNIGOLYN NEU EI EIRIOLWR AC WEDI EI WNEUD YN YMWYBODOL EICH BOD AM ADRODD EICH PRYDERON I'R GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION. OS NAD YDYCH WEDI GWNEUD HYN, NODWCH PAM:	
2. Gwybodaeth am y cam-drin honedig:	
Math o Gam-drin Honedig (ticiwch y blychau perthnasol)	
Ariannol/ Materol ☐ Esgeulustod ☐ Corfforol Rhywiol ☐ Emosiynol/ Seicolegol ☐ ☐	
Disgrifiwch y cam-drin neu'r esgeulustod honedig: (map corff):	

Ers pryd mae'r cam-drin honedig wedi bod yn digwydd?	Yn lle ddigwyddodd y cam-drin honedig?
Pryd ddigwyddodd y cam-drin honedig?	
Pa mor aml ac i ba raddau y mae'r cam-drin wedi bod yn digwydd?	
Beth yw eich barn chi am yr effaith y mae'r cam-drin yn ei gael ar yr unigolyn?	
Pa gamau gweithredu sydd wedi eu cymryd er mwyn diogelu/ amddiffyn yr unigolyn a gan bwy? (Cofiwch gynnwys sut y caiff y risg ei reoli, pwy arall sydd wedi cael eu hysbysu – gan gynnwys asiantaethau statudol, meddyg teulu, Yr Heddlu ac ati);	





Amlygwch unrhyw anafiadau corfforol yma.

Beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn tuag at y Pryder Diogelu?
(I gynnwys unrhyw gamau gweithredu y maent wedi'u cymryd neu'n debygol o'u cymryd):

3. Gwybodaeth am yr Unigolyn(ion) yr honnir iddynt fod yn gyfrifol am y cam-drin:

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd ☐

Enw:	Cyfeiriad/Gweithle:
Rhif Ffôn:	Dyddiad Geni:
Oedran:	Perthynas i'r Dioddefwr Honedig:
Ydi'r gallu ganddynt i ddeall eu gweithredoedd?	Ydi ☐ Nac Ydi ☐ Dim yn Gwybod ☐

Ydi'r tramgwyddwr honedig yn darparu Gofal a Chefnogaeth ar gyfer yr unigolyn?	Ydi ☐ Nac Ydi ☐ Dim yn Gwybod ☐
Oes gan y tramgwyddwr honedig anghenion gofal a chefnogaeth?	Ydi ☐ Nac Ydi ☐ Dim yn Gwybod ☐
Sylwer: Os oes mwy nag un tramgwyddwr honedig wedi'i nodi, rhowch fanylion yn Adran 7.	
4. Gwybodaeth am yr unigolyn(ion) a oedd yn dyst i'r digwyddiad(au):	
Enw:	Cyfeiriad/Gweithle:
Rhif Ffôn:	Perthynas i'r Dioddefwr (os yn berthnasol):
Sylwer: Os oes mwy nag un unigolyn wedi bod yn dyst i'r digwyddiad(au), rhowch fanylion yn Adran 7.	
5. Gwybodaeth am yr unigolyn a adroddodd ei bryderon gyntaf:	
Enw:	Cyfeiriad/Gweithle:
Rhif Ffôn:	Swydd/ Perthynas:
Dyddiad/ Amser yr adroddwyd am y digwyddiad:	
Ydi'r cyfeiriwr yn dymuno aros yn ddi-enw?	Ydi ☐ Nac Ydi ☐
Os **Ydi**, nodwch pam: **Sylwer: Ni all weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwneud yr atgyfeiriad aros yn anhysbys oni bai mewn amgylchiadau eithriadol.**	
6. Cwblhawyd y ffurflen hon gan:	
Enw:	Amser/Dyddiad cwblhawyd:
Asiantaeth/ Cwmni:	Teitl swydd:
Rhif ffôn:	Cyfeiriad E-bost:
Unigolyn i gysylltu am fwy o wybodaeth, os yw'n berthnasol:	
Enw:	Teitl swydd:
Rhif ffôn:	Cyfeiriad E-bost:

7. Gwybodaeth Ychwanegol:	
Anfonwch y ffurflen hon at sylw BRYS yr Awdurdod Lleol perthnasol. Hwn yw'r awdurdod lleol lle ddigwyddodd y cam-drin honedig.	
Ynys Môn – Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Oedolion: Conwy - Tîm Mynediad Cwsmer Sir Ddinbych – Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint - Tîm Cyswllt Cyntaf Gwynedd – Canolbwynt Diogelu Wrecsam – Tîm Diogelu Oedolion	dyletswydd@ynysmon.gov.uk llesiant@conwy.gov.uk spoa@denbighshire.gov.uk ssduty@flintshire.gov.uk diogeluoedolion@gwynedd.llyw.cymru irt@wrexham.gov.uk
Dyddiad y cadarnhawyd gan y Bwrdd: Adolygwyd:	V7: 30 Mawrth 2017 Awst 2018
Dyddiad adolygu:	V12 Mawrth 2020

Hysbysiad Preifatrwydd:

Mae *[Rhowch Enw Sefydliad]* wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch y wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu, ac i ddarparu agwedd gydsyniol a chyson i ddiogelu data. Rydym wedi bod yn gweithredu rhaglen diogelu data gadarn ac effeithiol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith bresennol ac yn unol ag egwyddorion diogelu data. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau i ddiweddaru ac ehangu'r rhaglen hon i fodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Bil Diogelu Data'r DU.

Mae *[Rhowch Enw Sefydliad]* wedi ymrwymo i ddiogelu gwybodaeth bersonol dan ein cylch gwaith a gweithredu rhaglen diogelu data effeithiol, sy'n addas i'r diben ac yn arddangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Rheoliad newydd. Mae ein paratoadau ac egwyddorion ar gyfer cydymffurfiad Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol wedi ei grynhoi yn y datganiad hwn ac yn cynnwys datblygiad a gweithrediad rolau, polisïau, gweithdrefnau, rheolaethau a mesurau diogelu data newydd er mwyn sicrhau'r cydymffurfedd uchaf bosib a pharhaus.

Deg o Awgrymiadau Gwych ar gyfer Llunio Adroddiad Diogelu Oedolion

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond ar gyfer hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch amheuon o gam-drin neu esgeuluso oedolyn mewn perygl. Os dymunwch chi hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ryw wybodaeth arall, neu wneud cais am wasanaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol briodol.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib yn yr adroddiad. Os na fyddwch yn adrodd holl hanes yr hyn sydd wedi digwydd, gall fod oedi yn y broses o ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.

Dylai'r deg o awgrymiadau canlynol eich helpu i gwblhau'r adroddiad:

1. Cofnodi'r wybodaeth sylfaenol yn gywir.
   - Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r oedolyn mewn perygl
   - Cyfeiriad a rhif ffôn
   - Rhyw a tharddiad ethnig yr oedolyn mewn perygl
   - Anghenion gofal a chymorth yr oedolyn mewn perygl.

2. Byddwch yn eglur o ran pwy ydych chi, beth yw eich rôl a'ch perthynas i'r sawl sy'n destun yr adroddiad.
   - **Nodwch leoliad presennol yr oedolyn mewn perygl a pha gamau a gymerwyd i sicrhau diogelwch yr oedolyn hwnnw.**

3. Nodwch ffynhonnell eich tystiolaeth a byddwch yn eglur o ran gwahaniaethu rhwng ffaith a barn.
   - A ddaw'r dystiolaeth o'r nodiadau, profiadau uniongyrchol wrth ymwneud â'r unigolyn, pryderon y mae gweithwyr proffesiynol eraill wedi'u codi, neu wybodaeth a ddarparwyd gan rywun arall? Gall fod yn gyfuniad o bob un o'r rhain.
   - Dyfynnwch yr union eiriau y mae'r oedolyn mewn perygl wedi'u dweud wrthych.
   - Er enghraifft, peidiwch ag ysgrifennu 'Mae'r oedolyn mewn perygl yn dweud fod ei bartner yn ei gam-drin yn gorfforol'; dyfynnwch union eiriau'r oedolyn mewn perygl: "fe wnaeth fy mhartner fy ngwthio i lawr y grisiau ddydd Mawrth diwethaf a fy llusgo ar hyd y llawr gerfydd fy ngwallt."

4. Byddwch yn gryno a defnyddiwch frawddegau byrion.
Esboniwch unrhyw dermau meddygol a'r hyn y maent yn ei olygu i'r oedolyn mewn perygl, gan ei bod yn bosib na fydd gan y sawl sy'n darllen yr adroddiad unrhyw gefndir meddygol.

- Er enghraifft, pe byddech chi'n gwneud Atgyfeiriad Diogelu Oedolyn wedi clywed nad fu gofalwyr Richard yn rhoi ei foddion thyroid iddo. Gallech ysgrifennu: 'Mae gan Richard isthyroidedd (chwarren thyroid tanweithredol) ac mae arno angen cymryd y moddion a roddodd y meddyg iddo (Levothyroxin) unwaith y dydd. Os nad yw'n cael ei foddion bob dydd gall fynd yn sâl iawn. Mae gan Richard anabledd dysgu ac mae'n dibynnu ar ei ofalwyr.

5. Disgrifiwch mor fanwl ag y gallwch yr hyn sydd wedi digwydd, gan nodi a oedd unrhyw dystion.

6. Byddwch yn bendant ynglŷn â'r math o gam-drin sydd wedi digwydd yn eich tyb chi.

7. Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch ynglŷn â'r cyflawnwr/wyr.

Peidiwch â chysylltu â'r cyflawnwr eich hunan

8. Meddyliwch a oes rhywun arall mewn perygl hefyd

- Er enghraifft, plant neu oedolion eraill mewn perygl. Nodwch pwy ydynt.
- Meddyliwch a oes angen ichi wneud Atgyfeiriad Diogelu Plentyn.

9. Nodwch a yw'r oedolyn mewn perygl yn ymwybodol o'r pryderon o ran diogelu, a'r hyn y mae'r oedolyn mewn perygl yn dymuno iddo ddigwydd.

- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid peidio â sôn am eich pryderon wrth yr oedolyn mewn perygl (neu'r teulu/rhywun ag atwrneiaeth os yw'n briodol, mewn achosion lle nad yw'r oedolyn mewn perygl yn meddu ar alluedd). **Cofiwch y dylai Diogelu fod yn broses a weithredir AR Y CYD ag oedolion mewn perygl, ac nid rhywbeth sy'n digwydd iddynt.** Dylid gwneud eithriad i hynny pe byddai sôn am eich pryderon yn rhoi'r unigolyn neu chi eich hun mewn perygl o niwed.

10. Nodwch yn eglur yn eich nodiadau eich hun pa gamau gweithredu a gymerwyd.